**Cyngor Cymuned Y Bontnewydd**
**COFNODION CYFARFOD MISOL GORFFENNAF 2020**
2 Gorffennaf 2020 7.00- cyfarfod o bell drwy gyfrwng fideo

**PRESENNOL:**

**Cynghorwyr:** Gruff Williams, Erddyn Davies, Dafydd Iwan, Math Williams, Wynn Roberts, Emyr Williams, Mirain Llwyd Owen

**Cadeirio:** Geraint Strello

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

## 1. YMDDIHEURIADAU

DIM

## 2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Iwan fuddiant yn eitem 5.1 gan ei fod yn Gadeirydd Age Cymru Gwynedd a Môn

## 3. CADARNHAU COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion 4 Mehefin 2020, ond bod angen newid y cyfeiriad at fis Mawrth yn y pennawd i Fehefin.

Cynnig: Erddyn Davies
Eilio: Wynn Roberts

## 4. MATERION SEFYDLOG

### 4.1 Adroddiad gan y Cynghorydd Peter Garlick

Doedd y Cynghorydd Peter Garlick ddim yn bresennol i fedru rhoi ei ddiweddariad arferol.

### 4.2 Y Ganolfan, Bontnewydd

Cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd Math Williams.

Paratowyd asesiad risg COVID-19 ar gyfer ail agor Y Ganolfan, gyda chanllawiau penodol i’w dilyn er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr a staff unwaith i’r Ganolfan ail-agor.

**Sefyllfa ariannol:**

Arian yn y banc 1/07/20: £1580
Arian mewn llaw: £18
Arian yn ddyledus ers cyn y cyfnod clo: yoga £36 a karate £36
Incwm disgwyliedig y mis yma: tua £640
Taliadau disgwyliedig y mis yma: tua £700

**Yswiriant; a pharatoadau i ail-agor y Ganolfan**

- Asesiad risg wedi ei baratoi
- Clwb ar ôl Ysgol wedi cael caniatâd i ail-agor gan Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Mae eu paratoadau parthed Covid-19 wedi dilyn cyngor gan Glybiau Plant Cyn
- Asesiad risg Covid-19 Pwyllgor y Ganolfan wedi ei baratoi

**Gwaith cynnal a chadw a mân welliannau ym mis Mehefin**

- Mat sychu traed newydd i'r cyntedd bach – wedi ei osod

**Gwaith ar y gweill**

- Golau tu allan wrth y cyntedd bach – aros hyd y bydd arian o incwm llogi
- Drws mynediad (coch) i'r cyntedd bach - mae ffrâm y drws yn rhydd yn y wal a
- ochr y colfachau - aros hyd y bydd arian o incwm llogi
- Gosod croen plastic ar y bargoed (barge a fascia) a gwterydd newydd - wedi d
  Angen dewis contractwr os bydd y Cyngor Cymuned yn barod i ariannu'r gwa
- Ystafell ymgynnull newydd (yr hen ystafell snwcer) a drysau tân y neuadd – we
- derbyn amcan bris gan syrfëwr meintiau; bydd angen codi arian drwy gais am g
- wedyn gwahodd adeiladwyr trwy

  broses tendr, mwy na thebyg drwy gyfrwng gwefan Sell2Wales.

Cafwyd amrywiol ddyfynbrisiau ar gyfer gwneud y gwaith o osod croen plastic ar y ba
gwterydd newydd.

1)£4,300

2)£12,400

3)£4-5,000 ar lafar, ond y person yma ddim am wneud y Gwaith,.

Gofynnwyd am bris gan bedwerydd adeiladwr, ond ni chafwyd ateb.

Mae'n debyg mae'r rheswm am y gwahaniaeth mawr rhwng y prisiau yw bod y dyfynbris am £12,400 yn cynnwys gosod sgaffaldiau ac yn cynnwys TAW.

Wedi trafodaeth, fe gytunwyd fod angen gwneud y gwaith gan fod y gwteri ar Y Ganolfan bellach yn 30 oed, ac os na fyddai'r gwaith yn cael ei wneud, byddai'n debygol o arwain at ddirywiad pellach a chostau ychwanegol yn y tymor hir.

Cytunwyd i fynd am y dyfynbris cyntaf o £4,300 gan ei fod yn rhesymol a'r contractwr yn gontractwr gyda hanes o wneud gwaith o safon.

Mae cais hefyd wedi ei wneud am y grant o £10,000 sydd ar gael i ganolfannau cymunedol o dan gynllun digolledu COVID-19. Os bydd y cais yn llwyddiannus, yna mae'n debyg y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer denu arian cyfatebol ar gyfer adnewyddu'r ystafell snwcer a'i throi yn ystafell ymgynnull.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### 5.1 Cefnogaeth i Age Cymru Gwynedd a Môn

Mae Age Cymru Gwyned a Môn wedi gofyn am lythyr o gefnogaeth i'w gwaith cymunedol gan y Cyngor Cymuned. Bydd hyn o gymorth iddynt wrth wneud ceisiadau am grantiau.

## 6. MATERION ARIANNOL

### 6.1 Cyflog a Chostau Clerc Mehefin 2020

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyflog** £232.20 y mis
**TWE** £46.80 y mis

**Cyfanswm Gros** £279.00 y mis
**Cyfanswm Net** £232.20 y mis

## 7. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

## 8. GOHEBIAETH

Dim

## 9. MATERION ERAILL

### 9.1 Llythyr Prif Weithredwr Gwynedd

Cafwyd llythyr gan Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn gofyn am farn cynghorau cymuned wrth i Lywodraeth Cymru lacio cyfyngiadau COVID-19. Yn benodol, gofynnwyd a fedrai Cyngor Gwynedd wneud unrhyw beth yn benodol er mwyn lleddfu ofnau'n lleol wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

Cytunwyd fod pryder wrth i fwy o ymwelwyr ymweld â'r ardal, y byddai yna gynnydd yn nifer y cerbydau sy'n aros dros nos yn Y Foryd, a hefyd cynnydd mewn gwersylla gwyllt. Gallasai hyn hefyd arwain at fwy o sbwriel yn cael ei adael yn yr ardal.

Hefyd, gallasai y byddai yna fwy o geir yn defnyddio lonydd cefn yn y gymuned, yn enwedig oherwydd bod nifer o lonydd wedi cau yn lleol, oherwydd gwaith ar y ffordd osgoi.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 3 Medi 2020 am 7 yr hwyr drwy gyfrwng cyswllt fideo.**